

Gorfodi Parcio Sifil



Am ragor o wybodaeth, ffoniwch:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
01443 425001

Llyfryn Canllawiau
Gorfodi Parcio Sifil

www.rctcbc.gov.uk/parkright



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Newidiadau

○ Haf 2012 ymlaen, bydd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithredu rheoliadau parcio newydd yn ôl cynllun Gorfodi Parcio Sifil.**

Bydd cyfyngiadau parcio yn aros yr un fath, ond bydd Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) y Cyngor yn gweithredu pob maes parcio (oddi ar y strydoedd) wedi'i reoli gan y Cyngor, cynlluniau parcio i drigolion, llinellau melyn dwbl a chyfyngiadau parcio eraill.

Os yw cerbyd yn cael ei barcio'n anghyfreithlon, mae'n debygol bydd y SGS yn cyflwyno Rhybudd Tâl Cosb

Manteision

Bydd newid i bwerau Gorfodi Sifil yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â materion cludiant ac amgylcheddol ehangach megis tagfeydd traffig a diogelwch ffyrdd gan ddiogelu trigolion, dalwyr bathodynnau glas, gweithredwyr cludiant a busnesau lleol, ac ati.

Bydd hyn yn atal y camddefnydd o fannau parcio arbennig megis manau parcio i bobl anabl, ardaloedd llwytho, safleoedd bysiau yn ogystal â lleihau tagfeydd y tu allan i ysgolion.

Rhybudd tâl cosb

Gall Swyddogion Gorfodi Sifil gyflwyno Rhybudd Tâl Cosb pan fo cerbyd wedi'i barcio'n anghyfreithlon.

Mae cyfnodau arsylwi wedi cael eu gosod ac mae modd i SGS siarad â'r gyrrwr, os ydyn nhw yn y car, cyn cyflwyno'r Rhybudd.

Does dim hawl gyda SGS i ganslo Rhybudd unwaith iddo gael ei gyhoeddi, nac ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol – rhaid mynd i'r afael â'r achosion yma drwy'r drefn apelio.

Yn groes i'r gred gyffredin, does dim nifer penodol na thargedau wedi'u gosod ymlaen llaw ar gyfer cyflwyno'r Rhybuddion Tâl Cosb. Dim ennill arian yw bwriad y cynllun o gwbl. Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth lwyr yn allweddol er mwyn manteisio'n llawn o'r drefn. Noder bod y ddeddfwriaeth yn mynnu bod rhaid i unrhyw arian dros ben o ganlyniad i Orfodi Parcio Sifil, gael ei ail-fuddsoddi yn rhwydwaith y priffyrdd.

Bydd y Rhybudd yn nodi manylion y cerbyd a'r drosedd dan sylw yn ogystal â faint sydd i'w dalu.

Mae dau fath o dâl cosb (penodwyd gan Lywodraeth Cymru) yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Bydd dirwy o £70 am drosedd ddifrifol, a £50 am drosedd llai difrifol.

Caiff y ddirwy ei thalu o fewn 14 diwrnod, bydd tâl o £35 yn cael ei godi am drosedd ddifrifol a £25 am drosedd llai difrifol.

Os ydy'r tâl yn hwyr, bydd y gost yn cynyddu i £105 am drosedd ddifrifol, a £75 am un llai difrifol. Gall hyn gynyddu eto os oes rhaid i'r Cyngor dderbyn y ddyled drwy feili.

Talu'r Rhybudd Tâl Cosb:

Post: gan ddefnyddio'r amlen sy'n dod gyda'r Rhybudd

Ffôn: 033 33 200 867
(taliad cerdyn credyd/debyd)

Gwefan: www.swpg.co.uk
(taliad cerdyn credyd/debyd)



Trefn apelio

Os ydy gyrrwr yn credu y dylai'r achos dderbyn ystyriaeth, mae cyfle i wneud apêl mewn ysgrifen.

Mae modd i chi ysgrifennu atom ni o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r Rhybudd i wneud apêl. Os ydy apêl yn cael ei chyflwyno o fewn y 14 diwrnod cyntaf, bydd lefel y gost yn llai nes penderfynu ar ganlyniad yr apêl.

Os ydy'r apêl yn cael ei gwrthod, bydd gan y derbynydd (perchennog/ceidwad y cerbyd) y dewis i gyflwyno apêl i feirniad annibynnol. Bydd manylion ar sut i wneud hyn ar gael ar Hysbysiad Gwrthod y Cyngor.














Cyngor

Mae'r rhan fwyaf o yrwyr yn ymddwyn yn gyfrifol felly bydd manteision Gorfodi Parcio Sifil o fudd iddyn nhw. I sicrhau eich bod chi'n parcio'n ddiogel a chyfreithlon:-

- Chwiliwch am unrhyw linellau ac arwyddion
- Parciwch o fewn marciau'r man parcio lle bo'n briodol
- Sicrhewch fod dim olwynion ar linellau melyn
- Dilynwch reoliadau'r maes parcio (wedi'u nodi ar arwyddion a'r mur tollau)
- Peidiwch â pharcio wrth ymyl pafinau sydd â'u hymyl wedi'i ostwng
- Peidiwch â pharcio mwy na 50cm i ffwrdd o ymyl y pafin
- Peidiwch â pharcio ar lwybr cerdded/pafin
- Peidiwch â pharcio ar groesfan cerddwyr, llinellau gwyn igamogam neu arwyddion 'Cadwch yn glir'
- Peidiwch â pharcio mewn manau parcio i breswylwyr heb drwydded ddilys
- Peidiwch â pharcio mewn manau cadw (oni bai bod hawl gyda chi) e.e. manau parcio i bobl anabl

Rheolau

Er mwyn parcio'n gywir rhaid chwilio am arwyddion, llinellau a hysbysiadau eraill o fewn cyffiniau'r maes parcio, bydd rhain yn eich rhybuddio chi am unrhyw gyfyngiadau parcio. Bydd Rheolau'r Ffordd Fawr yn helpu esbonio ystyr yr arwyddion a'r llinellau. Dyma rai enghreifftiau:

 <p>No waiting at any time</p>	 <p>No stopping or parking at a bus stop clearway within its hours of operation.</p> <p>You must not drive or stop in a bus lane during its period of operation unless the signs indicate you may do so.</p> 	
 <p>No waiting during times shown on sign</p>	 <p>Mon - Sat 8 am - 7 pm 20 mins No return within 40 mins</p> <p>Waiting is limited to the times and duration shown</p>  <p>Loading only</p>  <p>Loading bay</p>	
 <p>No loading or unloading at any time</p> 	 <p>No loading Mon - Sat 8.30 am - 6.30 pm</p> <p>No loading or unloading at the times shown</p> 	 <p>Controlled ZONE</p> <p>Controlled parking zones. The zone entry signs indicate the times when the waiting restrictions within the zone are in force. Parking may be allowed in some places at other times.</p> <p>Mon - Fri 8.30 am - 6.30 pm Saturday 8.30 am - 1.30 pm</p>
 <p>SCHOOL KEEP CLEAR</p> <p>Keep school entrance clear, even if picking up or setting down</p>		



Parcio i ddalwyr Bathodyn Anabl

Ble i barcio gyda bathodyn glas

Os oes bathodyn glas gyda chi, rydych chi'n cael parcio:

- Ar linellau sengl neu ddwbl am hyd at 3 awr os rydych chi'n dangos eich bathodyn glas a'ch disg/cloc parcio (sy'n dangos eich amser cyrraedd) yn glir heb eich bod chi'n achosi rhwystr.
- Ar y stryd: Am ddim, mewn man parcio anabl heb derfyn amser oni bai bod arwydd yn nodi fel arall.
- Oddi ar y stryd: Am ddim, mewn man parcio anabl dynodedig ym meysydd parcio'r Cyngor. Os rydych chi'n parcio mewn unrhyw un o fannau parcio arferol y Cyngor, rhaid talu'r gost briodol.

Noder:

Dangoswch eich Bathodyn Glas yn glir ar flaen y car e.e. panel neu ffenest flaen. Rhaid bod blaen y bathodyn (gyda symbol y gadair olwyn a'r dyddiad terfyn) i'w weld yn glir.



Parcio ar gyfer Dalwyr Bathodynau Glas Barcio:

Does dim modd i ddalwyr bathodynau glas barcio:

- Ar safleoedd bysiau
- Ar safleoedd tacsï
- Ar glirffordd (dim stopio)
- Mewn mannau parcio arbennig e.e. ar gyfer heddlu, doctoriaid
- Lle mae gwaharddiad llwytho mewn grym
- Ar y pafin oni bai bod llinellau gwyn yn ei ganiatáu
- Ar groesfan neu ei linellau igam-ogam
- Ar linellau igam-ogam ysgolion pan fo'r ysgol ar agor



